***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3088

## Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn a Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2014

**Diwrnod penodedig**

**2.** 12 Rhagfyr 2014 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009—

(a) adrannau 116 i 128 (dynodi parthau cadwraeth morol; dyletswyddau sy'n ymwneud â rhwydwaith cadwraeth a dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus);

(b) adrannau 134 i 148 (gorchmynion ar gyfer gwarchod parthau cadwraeth morol yng Nghymru; gwrandawiadau; troseddau; cosbau ariannol penodedig; darpariaethau amrywiol ac atodol; a safleoedd cadwraeth eraill) ac Atodlenni 10 (darpariaethau pellach ynghylch cosbau ariannol penodedig o dan adran 142), 11 (diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â pharthau cadwraeth morol), 12 (darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â pharthau cadwraeth morol) a 13 (ffiniau morol safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a gwarchodfeydd natur cenedlaethol); ac

(c) Rhan 3 (gwarchod natur) o Atodlen 22 (diddymiadau) ac adran 321 (diddymiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno.